

2021 Rhif WG21-16

DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006

Cyfarwyddydau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ad-dalu Cost Triniaeth AEE) (Cymru) (Diwygio) 2021

Gwnaed

25 Mawrth 2021

Yn dod i rym yn unol â chyfarwyddyd 1(2)

Mae Gweinidogion Cymru yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 12(1)(b), 12(3), 203(9) a (10) a 204(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1).

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ad-dalu Cost Triniaeth AEE) (Cymru) (Diwygio) 2021.

(2) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym o ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

(3) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i Fyrddau Iechyd Lleol ac maent yn gymwys o ran Cymru.

(4) Yn y Cyfarwyddydau hyn—

ystyr “y Cyfarwyddydau Ad-dalu” (“*the Reimbursement Directions*”) yw Cyfarwyddiadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ad-dalu Cost Triniaeth AEE) (Cymru) 2010(2);

(1) 2006 p. 42.

(2) 2010 Rhif 40. Gwnaed y Cyfarwyddydau ar 5 Awst 2010 ac fe'u diwygiwyd gan Gyfarwyddiadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ad-dalu Cost Triniaeth AEE) (Cymru) (Diwygio) 2013 (2013) Rhif 25 (“y Cyfarwyddydau Diwygio”). Mae'r Cyfarwyddydau ar gael ar <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/cyfarwyddiadaur-gwasanaeth-iechyd-gwladol-ad-dalu-cost-triniaeth-ae-cymru-2010-2010-cy-40.pdf>. Mae'r Cyfarwyddydau Diwygio ar gael ar

ystyr “Deddf y GIG” (“*the NHS Act*”) yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

Darpariaethau arbed a darpariaethau trosiannol sy’n ymwneud â’r Cyfarwyddydau Ad-dalu

2. Mae’r Cyfarwyddydau Ad-dalu i barhau i fod yn gymwys gyda’r addasiadau a wneir gan yr Atodlen, i ddarparu gwybodaeth i gleifion y mae unrhyw un neu ragor o’r canlynol yn parhau i fod yn gymwys mewn perthynas â hwy yn rhinwedd rheoliad 15 o Reoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Iechyd Trawsffiniol a Diwygiadau Amrywiol etc.) (Ymadael â’r UE) 2019 (achosion trawsffiniol sy’n codi cyn diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu)(1) ac i ystyried ceisiadau a wneir gan y cleifion hynny—

- (a) adran 6A neu 6B o Ddeddf y GIG (ad-dalu costau gwasanaethau a ddarparwyd mewn Gwladwriaeth AEE ac awdurdodiad ymlaen llaw)(2);
- (b) adran 6BA neu 6BB o Ddeddf y GIG (ad-dalu cost gwasanaethau a ddarparwyd mewn Gwladwriaeth AEE pan aed i wariant ar neu ar ôl 25 Hydref 2013 ac awdurdodiad ymlaen llaw)(3).

Enw,
Sioned Rees, Dirprwy Cyfarwyddwr, Llywodraeth
Cymru, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a
Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion
Cymru

Dyddiad: 25 Mawrth 2021

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/cyfarwyddiadaur-gwasanaeth-iechyd-gwladol-ad-dalu-cost-triniaeth-ae-cymru-2013-2013-rhif-cy-25_0.pdf.

- (1) O.S. 2019/777 fel y’i diwygiwyd gan O.S. 2020/1348.
- (2) Mewnosodwyd adrannau 6A a 6B gan O.S. 2010/915 ac fe’u hepgorwyd gan O.S. 2019/777, yn ddarostyngedig i ddarpariaeth arbed a darpariaeth drosiannol.
- (3) Mewnosodwyd adrannau 6BA a 6BB gan O.S. 2013/2269 ac fe’u hepgorwyd gan O.S. 2019/777, yn ddarostyngedig i ddarpariaeth arbed a darpariaeth drosiannol.

YR ATODLEN Cyfarwyddyd 2

Achosion trawsffiniol sy'n codi cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu

1. Mae'r Cyfarwyddydau Ad-dalu i'w darllen fel pe bai—

- (a) yng nghyfarwyddyd 2 (dehongli), y canlynol wedi ei fewnosod yn y lle priodol—

“ystyr “y Rheoliadau Ymadael Trawsffiniol” (“*the Cross-Border Exit Regulations*”) yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Iechyd Trawsffiniol a Diwygiadau Amrywiol etc.) (Ymadael â'r UE) 2019(1);”;

- (b) mae cyfarwyddyd 2 (dehongli) i'w ddarllen fel pe bai'r testun presennol yn dod yn baragraff (1) a'r canlynol wedi ei fewnosod ar ôl y paragraff hwnnw—

“(2) Yn y Cyfarwyddiadau hyn, mae cyfeiriad at adran 6A, 6B, 6BA neu 6BB o Ddeddf y GIG (Cymru) 2006 yn gyfeiriad at yr adran honno fel y parheir â hi gan reoliad 15 o'r Rheoliadau Ymadael Trawsffiniol.”;

- (c) ym mhennawd cyfarwyddyd 10 (dyletswydd i gyhoeddi gwybodaeth am wasanaethau arbennig yn ddarostyngedig i awdurdodiad ymlaen llaw), “Gwybodaeth” wedi ei roi yn lle “Dyletswydd i gyhoeddi gwybodaeth”;

- (d) yng nghyfarwyddyd 10(1), “wneud ymdrechion rhesymol i” wedi ei fewnosod ar ôl “rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol”;

- (e) ym mhennawd cyfarwyddyd 11 (dyletswydd i gyhoeddi gwybodaeth am weithdrefnau ar gyfer ad-daliad ac awdurdodiad ymlaen llaw), “Gwybodaeth” wedi ei roi yn lle “Dyletswydd i gyhoeddi gwybodaeth”;

- (f) yng nghyfarwyddyd 11, “wneud ymdrechion rhesymol i” wedi ei fewnosod ar ôl “Rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol”;

- (g) yng nghyfarwyddyd 12(1) (cyngor a chymorth)—

- (i) “wneud ymdrechion rhesymol i” wedi ei fewnosod ar ôl “Rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol”;

- (ii) “Gwladwriaeth AEE” wedi ei roi yn lle “Gwladwriaeth AEE arall” yn y ddau le;

- (h) “Mae cyngor a chymorth o'r fath i'w ddarparu yn unol â darpariaethau cyfarwyddyd 6 o Gyfarwyddiadau'r

(1) O.S. 2019/777 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1348.

Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Iechyd Trawsffiniol) (Cymru) 2013⁽¹⁾” wedi ei roi yn lle cyfarwyddyd 13 (cyngor a chymorth).

(1) 2013 Rhif 26. Gwnaed y Cyfarwyddydau ar 25 Hydref 2013 ac maent ar gael ar <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/cyfarwyddiadaur-gwasanaeth-iechyd-gwladol-gofal-iechyd-trawsffiniol-cymru-2013-2013-rhif-26.pdf>. Diwygiwyd y Cyfarwyddydau ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu ac mae'r cyfarwyddydau diwygio ar gael ar <https://llyw.cymru/cyfarwyddiadaur-gwasanaeth-iechyd-gwladol-gofal-iechyd-trawsffiniol-cymru-diwygio-2021>

].